

Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad o gyfarfod mis Mai 2021

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Eglwys Llanllwni, nos Lun 24 Mai am 8yh.
Cyflwynwyd mantolen flynyddol am y flwyddyn Ebrill 2020 – Mai 2021. Llofnodwyd amryw ffurflenni priodol gan y Cadeirydd a chyflwynodd y Clerc fantolen Ebrill 2021 – Mai 2021.
Cynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30yh.
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a braf oedd cael cwrdd wyneb yn wyneb eto trwy ddilyn rheolau Cofid a gwisgo mygydau.
Penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Swyddogion yn parhau yn eu swyddi tan Mai 2022.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd y toiledau wedi cyrraedd y cae chwarae er dechrau mis Mai. Diolchwyd i Eric Davies am ei waith yn y cae chwarae yn ystod y misoedd diwethaf eto. Cadarnhawyd bod yr adnoddau wedi cael ei archwilio yn fanwl gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar 16 Ebrill 2021.

Roedd y Clerc wedi derbyn manylion archwilio adnoddau'r cae chwarae gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Penderfynwyd yn unfrydol dderbyn y cynnig eleni eto gan fod angen gwneud yr archwiliad yn flynyddol.

GWEFAN LLANLLWNI

Byddai'r wefan yn cael ei hystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

HEWL GWARCWM – BEILI BACH:

Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad y byddai'r gweithlu lleol yn llenwi'r tyllau i gyd yn ystod y dyddiau nesaf. Byddai'r ffordd hon yn cael ei rhoi ar restr o ardaloedd sydd angen gwaith mwy parhaol pan fydd cyllideb ar gael.

DIFFIBRILYDD

Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Gronfa Gymundol Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa y byddent yn ariannu'r diffibrilyd i'w osod ar Festri Capel Nonni. Awgrymwyd y byddai'r Clerc yn gwneud ymchwiliad ynglŷn â hyfforddiant a fyddai'n cael ei gynnal yn Festri Capel Nonni.

Roedd wedi ei nodi ers y cyfarfod diwethaf bod angen diffibrilydd y tu allan i'r Neuadd Gymunedol yn Llanllwni, ond nodwyd bod angen sefydlu pwyllgor cyn y byddai'n bosib i ystyried y cais ymhellach.

MATERION ARIANNOL:

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN:

Roedd y Clerc wedi derbyn y praesept.

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU:

Swyddfa Archwilio Cymru:

Yr oedd y Clerc wedi derbyn llythyr i gadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2019 – 2020 wedi ei gwblhau gan “Grant Thornton UK LLP” ar 17 Rhagfyr 2020.

PENDERFYNWYD CEFNOGI:

Macmillan; Cyngor Sir Caerfyrddin; NSPCC Cymru; Gofal Mewn Galar; Ambiwylans Awyr Cymru i Blant.

BOCS HYSBYSEBU:

Nodwyd mai gohebiaeth y Cyngor Bro yn unig oedd i’w osod yn y bocs.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a’u brwdfrydedd dros y plwyf, yn ystod blwyddyn a hanner heriol.